

# GALWAD

ENGLISH (WELSH BELOW)

Media Release: Friday 25 March 2022

## **FIRST ANNOUNCEMENT OF WELSH CREATIVE TEAM BEHIND AMBITIOUS PAN-WALES STORY, *GALWAD: A STORY FROM OUR FUTURE***

- *Anthony Matsena, will be Lead Choreographer - working with Associate Choreographer, Louise Stern*
- *Innovative 'writers' room' approach to scripting GALWAD led by Welsh writing team inc. Emily Burnett, Ciaran Fitzgerald, Jamie Jones, Darragh Mortell, Marvin Thompson and Hanna Jarman*
- *Launch of 'Building Worlds' talks series, spotlighting creative innovation*
- *Open call for Assistant Choreographer and six new writers*

With just six months to go until GALWAD unfolds across digital and broadcast platforms and live performance in Wales, the creative team behind this major Welsh cultural event are starting to be revealed.

***GALWAD: A STORY FROM OUR FUTURE***, part of UNBOXED: Creativity in the UK, will see Wales' boldest talent in screen, performance and creative technology create a multi-platform story with participants across Wales to unfold in real-time over a week – exploring a possible future in 30 years' time.

Blending conventional forms of storytelling (audio drama, TV drama and live performance) with creative technology, citizen journalism and social media, GALWAD will take place in the last week of September 2022.

### ***Choreography and movement direction***

As Lead Choreographer on GALWAD, Anthony Matsena will devise and direct the choreography and movement direction across the project. Matsena will be working with Associate Choreographer, Louise Stern, an artist and writer who grew up in an exclusively Deaf community and who uses various forms of language to explore communication.

Born in Bulawayo, Zimbabwe and raised in Swansea, Matsena is a choreographer, performer and director working between mediums of dance, theatre, music and poetry. He co-founded Matsena Productions with his brother Kel in 2017 and together they make work around black stories while using their different skills in African dance, hip-hop, theatre and poetry.

He was Sadler's Wells Young Associate in 2018 and is an associate artist with National Dance Company Wales (NDC Wales). Forthcoming projects include 'Codi' with NDC Wales, a residency at Swansea's Mission Gallery, and 'Shades of Blue' at Sadler's Wells, Royal Welsh College of Music and Drama, Dance East and Taliesin Arts Centre.

Anthony Matsena says: "Growing up in Swansea, I always dreamt of being involved in something epic and truthful in my hometown. I'm so happy that my dream is now unfolding right in front of me, and I couldn't be prouder to be waving the Welsh flag alongside a stellar team - who have given me the space and tools to flourish.

"GALWAD doesn't just rest on myself, Louise and the growing creative team to deliver ground-breaking work. It also calls on the people and communities of Wales to bring their stories and passion to the project. That's what's most exciting about this. I'm truly grateful and can't wait to see what we create together."

### ***A writers' room approach to story***

The approach to writing is also inclusive and dynamic, representing some of the brightest voices in poetry, screenwriting, and theatre. GALWAD has brought together a 'writers' room' to script the multiple storylines including:

- **Darragh Mortell** a writer and director from Newport, whose work includes *Peep Dish*, which won an award at the London Independent Film Festival, BBC Radio 4 drama *I am Kanye West* and five-part BBC Radio 4 series *SIEGE*
- **Emily Burnett**, a writer and BAFTA-winning actress from Cardiff. Emily's recent *H Is For Hair* radio drama was broadcast on BBC Radio 4.
- **Ciaran Fitzgerald**, an emerging disabled writer from Port Talbot. Ciaran is currently developing his first TV commission, *The Special Ones*, with Tiger Aspect Productions.
- **Jamie Jones**, a writer and director from Swansea. Jamie's first feature film, *Obey*, was selected for the Tribeca Film Festival 2018, winning 'best cinematography' and for which he won a BAFTA Cymru award for 'breakthrough director'.
- **Marvin Thompson** a London-born poet who lives in South Wales. In 2021 he won the Poetry Society's National Poetry Competition, the first poet of colour to win since 1981.
- **Hanna Jarman**, a writer-director and actor from Cardiff. Hanna created and co-wrote *Merched Parchus* for S4C, also starring in the series, which is now being distributed to Germany, Switzerland, and Italy.

The writers' room have been immersed in the 2052 world imagined through a co-creation process with 120 community 'world-builders' who worked over six weeks in autumn 2021 to envisage Wales in 2052.

An open call will be released on 28th March for six further writers to join the scripting process for six short 3-min films as part of the GALWAD story.

### ***Talks series spotlighting creative innovation***

Emily Burnett, Ciaran Fitzgerald and Anthony Matsena will be taking part in 'Building Worlds', an online series of live conversations led by the creatives, writers and artists behind the making of GALWAD and inspirational peers in their fields.

Informal and open to all, each talk takes place online and will explore breakthrough ideas in the fields of screenwriting, production design, co-creation, working with young people, choreography and movement direction, creative technology, and transmedia storytelling.

The first in the series, will be a conversation between Emily Burnett and multi-award-winning playwright and screenwriter Abi Morgan at the end of April.

Abi Morgan's work includes TV series *The Split*, *Sex Traffic*, *The Hour* and *My Fragile Heart*. Her feature films include *Shame*, *The Iron Lady*, *The Invisible Woman*, *Suffragette* and *Brick Lane*. Her theatre work includes *The Mistress Contract* (Royal Court Theatre), *Fugee* (The National Theatre) and *Love Song* (Frantic Assembly, Lyric Hammersmith).

### **Opportunities to work on GALWAD**

The Creative Company for GALWAD continues to grow with new creative opportunities being announced over the next few weeks. Today, we announce the following opportunities:

- A Wales-based **Assistant Choreographer** to work with Anthony Matsena and Louise Stern, playing a key role in shaping the choreography and movement of the project across multiple platforms and forms.
- Open call for **six new writers** to collaborate with our writing and creative team to produce scripts intended for filmed pieces of up to 3 mins, cast and filmed as part of GALWAD. This opportunity will be launched on Monday 28 March.

More information on the project and further opportunities to get involved with GALWAD will be released across social media and the website: [www.galwad.cymru](http://www.galwad.cymru)

GALWAD is commissioned by Creative Wales as part of UNBOXED: Creativity in the UK and is one of 10 commissioned projects taking place across England, Northern Ireland, Scotland and Wales in 2022. The UK's most ambitious showcase of creative collaboration includes free large-scale events, installations and globally accessible digital experiences, and an extensive learning programme, which aims to reach millions of schoolchildren.

UNBOXED: Creativity in the UK is funded and supported by the four governments of the UK and is commissioned and delivered in partnership with Belfast City Council, Creative Wales and EventScotland.

UNBOXED events in Wales include: [About Us](#) (Caernarfon, 30 March to 6 April) [Dreamachine](#) (Cardiff, details to be announced), [Green Space Dark Skies](#) (across Wales, May to September 2022), [StoryTrails](#) (Newport and Swansea, August) and, commissioned by Creative Wales, [GALWAD: A story from our future](#) (Blaenau Ffestiniog, Swansea and Merthyr Tydfil, September 2022).

### **UNBOXED: Creativity in the UK**

1 March – 2 October 2022

[Unboxed2022.uk](http://Unboxed2022.uk)

**-ENDS-**

For further information about GALWAD, please contact Elin Rees, Head of Communications at Collective Cymru – [elinrees@collective.cymru](mailto:elinrees@collective.cymru) / 07917 308329  
Please follow this link for an image of Anthony Matsena - [Anthony image](#)

For further information about UNBOXED, please contact Jeanette Ward  
[Jeanette.ward@unboxed2022.uk](mailto:Jeanette.ward@unboxed2022.uk) / 07729 930812

## NOTES TO EDITORS:

1. **GALWAD** is produced by Collective Cymru, a pan-Wales partnership led by National Theatre Wales including Centre of Alternative Technology, Clwstwr, Disability Arts Cymru, Ffilm Cymru, Frân Wen and Sugar Creative. Community partners currently include Cell B, Citizens Cymru, Ethnic Minorities Youth Support Team (EYST) and Merthyr Tydfil Leisure Trust and a creative company of writers, artists, performers, designers, filmmakers, and musicians. For more information, visit [www.galwad.cymru](http://www.galwad.cymru)
2. **CREATIVE WALES** is a Welsh Government internal agency that supports the development of the fast-growing creative industry in Wales. We focus on developing and promoting growth across the Screen, Digital, Music and Publishing sectors, positioning Wales as one of the best places in the world for creative businesses to thrive.
3. **UNBOXED: Creativity in the UK** is a celebration of creativity taking place across the UK in 2022, designed to reach millions and bring people together. It features free large-scale events, installations and globally accessible digital experiences in the UK's most ambitious showcase of creative collaboration. Produced by some of the brightest minds in science, technology, engineering, arts and maths, UNBOXED features ten major multi-site and digital creative projects that share new ideas and possibilities for the future.

Events and activities take place from 1 March to 2 October 2022 – from the Outer Hebrides to Luton and from Omagh to Swansea, and across traditional and online media. UNBOXED: Creativity in the UK is funded and supported by the four governments of the UK and is commissioned and delivered in partnership with Belfast City Council, Creative Wales and EventScotland.

## WELSH

Datganiad i'r Wasg: Dydd Gwener 25 Mawrth 2022

# CYHOEDDIAD CYNTAF TÎM CREADIGOL CYMRU Y TU ÔL I'R STORI UCHELGEISOL CYMRU GYFAN, ***GALWAD: A STORY FROM OUR FUTURE***

- *Anthony Matsena fydd y Coreograffydd Arweiniol - yn gweithio gyda'r Coreograffydd Cyswllt, Louise Stern*
- *Dull 'ystafell awduron' arloesol at sgriptio GALWAD dan arweiniad tîm ysgrifennu Cymreig yn cynnwys Emily Burnett, Ciaran Fitzgerald, Jamie Jones, Darragh Mortell, Marvin Thompson a Hanna Jarman*

- **Lansio cyfres o sgysiau 'Adeiladu Bydoedd', gan dynnu sylw at arloesi creadigol**
- **Galwad agored am Goreograffydd Cynorthwyol a chwe awdur newydd**

Gyda chwe mis yn unig i fynd nes bydd GALWAD yn ymddangos ar draws llwyfannau digidol a darlledu a pherfformiadau byw yng Nghymru, mae'r tîm creadigol y tu ôl i'r digwyddiad diwylliannol Cymreig mawr hwn yn dechrau cael ei ddatgelu.

Bydd **GALWAD: A STORY FROM OUR FUTURE**, sy'n rhan o UNBOXED: Creativity in the UK, yn gweld talent orau Cymru ym maes sgrin, perfformio a thechnoleg creadigol yn creu stori aml-lwyfan gyda chyfranogwyr ledled Cymru fydd yn datblygu mewn amser real dros gyfnod o wythnos – gan archwilio dyfodol posibl ymhen 30 mlynedd.

Gan gyfuno ffurfiau confensiynol o adrodd straeon (drama sain, drama deledu a pherfformio byw) â thechnoleg creadigol, newyddiaduraeth dinasyddion a chyfryngau cymdeithasol, bydd GALWAD yn digwydd yn ystod wythnos olaf mis Medi 2022.

### **Coreograffi ac iaith arwyddion**

Yn ei rôl fel Prif Goreograffydd GALWAD, bydd Anthony Matsena yn arwain y coreograffi ac yn cyfarwyddo'r symud ar draws y prosiect.

Wedi'i eni yn Bulawayo, Zimbabwe a'i fagu yn Abertawe, mae Matsena yn goreograffydd, perfformiwr a chyfarwyddwr sy'n gweithio rhwng cyfryngau dawn, theatr, cerddoriaeth a barddoniaeth. Cyd-sefydlodd Matsena Productions gyda'i frawd Kel yn 2017 a gyda'i gilydd maen nhw'n creu gwaith o amgylch straeon du wrth ddefnyddio eu sgiliau gwahanol mewn dawn, hip-hop, theatr a barddoniaeth Affricanaidd.

Ef oedd Cydymaith Ifanc Sadler's Wells yn 2018 ac mae'n artist cyswllt gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDC Cymru). Mae prosiectau sydd i ddod yn cynnwys 'Codi' gyda CDC Cymru, cyfnod preswyl yn Oriel Mission Abertawe, a 'Shades of Blue' yn Sadler's Wells, Dance East a Chanolfan y Celfyddydau Taliesin.

Bydd Matsena yn gweithio gyda'r Coreograffydd Cyswllt, Louise Stern, artist ac awdur a gafodd ei magu mewn cymuned Fyddar yn unig ac sy'n defnyddio gwahanol fathau o iaith i archwilio cyfathrebu.

Meddai Anthony Matsena: *“Wrth dyfu i fyny yn Abertawe, roeddwn i bob amser yn breuddwydio am fod yn rhan o rywbeth epig a gwir yn fy nhref enedigol. Rydw i mor hapus bod fy mreuddwyd bellach yn datblygu o flaen fy llygaid, ac ni allwn fod yn falchach o fod yn chwifio baner Cymru ochr yn ochr â thîm rhagorol - sydd wedi rhoi'r gofod a'r offer i mi ffynnu.*

*“Nid fi, Louise, a Casgliad Cymru a'r tîm creadigol yn unig sy'n gyfrifol am waith arloesol GALWAD. Mae hefyd yn galw ar bobl a chymunedau Cymru i ddod â'u straeon a'u hangerdd i'r prosiect. Dyna sydd fwyaf cyffrous am hyn. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar ac ni allaf aros i weld beth rydym yn ei greu gyda'n gilydd.”*

### **Ystafell awduron ar gyfer creu straeon**

Mae'r dull at ysgrifennu hefyd yn gynhwysol ac yn ddeinamig, gan gynrychioli rhai o'r lleisiau disgleiriaf mewn barddoniaeth, sgriptio a theatr. Mae GALWAD wedi dod ag 'ystafell awduron' ynghyd i sgriptio'r straeon lluosog gan gynnwys:

- **Emily Burnett**, awdur newydd ac actores o Gaerdydd sydd wedi ennill BAFTA. Yn ddiweddar mae Emily wedi ysgrifennu drama ar gyfer BBC Radio 4 o'r enw *H Is For Hair*.
- **Ciaran Fitzgerald**, awdur anabl newydd o Bort Talbot. Ar hyn o bryd mae Ciaran yn datblygu ei gomisiwn teledu cyntaf, *The Special Ones*, gyda Tiger Aspect Productions.
- **Jamie Jones**, awdur a chyfarwyddwr o Abertawe. Cafodd ffilm nodweddd gyntaf Jamie, *Obey*, ei dewis ar gyfer Gŵyl Ffilm Tribeca 2018, gan ennill 'sinematograffi gorau', ac enillodd wobr BAFTA Cymru ar gyfer 'cyfarwyddwr torri trwodd' mewn perthynas â'r un gwaith.
- **Darragh Mortell** awdur a chyfarwyddwr o Gasnewydd, y mae ei waith yn cynnwys *Peep Dish*, a enillodd wobr yng Ngŵyl Ffilmiau Annibynnol Llundain, drama BBC Radio 4 *I am Kanye West* a chyfres pum rhan ar BBC Radio 4 *SIEGE*
- **Marvin Thompson** bardd a aned yn Llundain ac sydd bellach yn byw yn Ne Cymru. Yn 2021 enillodd Gystadleuaeth Farddoniaeth Genedlaethol y Gymdeithas Farddoniaeth, y bardd croenliw cyntaf i ennill ers 1981.
- **Hanna Jarman**, awdur-cyfarwyddwr ac actor o Gaerdydd. Creodd a chyd-ysgrifennodd Hanna *Merched Parchus* ar gyfer S4C, gan gymryd prif ran hefyd yn y gyfres, sydd bellach yn cael ei dosbarthu i'r Almaen, y Swistir, a'r Eidal.

Mae'r ystafell awduron wedi'i hymdrochi ym myd 2052 a ddychmygwyd trwy broses gyd-greu gyda 120 o 'adeiladwyr byd' a weithiodd dros chwe wythnos yn hydref 2021 i ragweld Cymru yn 2052.

Bydd galwad agored yn cael ei rhyddhau ar 28ain Mawrth i chwe awdur arall ymuno â'r broses sgriptio ar gyfer chwe ffilm fer 3 munud o hyd fel rhan o stori GALWAD.

### **Cyfres o sgysiau yn tynnu sylw at arloesi creadigol**

Bydd Emily Burnett, Ciaran Fitzgerald ac Anthony Matsena yn cymryd rhan yn 'Adeiladu Bydoedd', cyfres ar-lein o sgysiau byw dan arweiniad y gweithwyr creadigol, yr awduron a'r artistiaid y tu ôl i wneud GALWAD a chyfoedion ysbrydoledig yn eu meysydd.

Yn anffurfiol ac yn agored i bawb, cynhelir pob sgwrs ar-lein a byddant yn archwilio syniadau arloesol ym meysydd ysgrifennu sgrin, dylunio cynrychiadau, cyd-greu, gweithio gyda phobl ifanc, coreograffi a chyfarwyddo symud, technoleg greadigol, ac adrodd straeon traws-gyfrwng.

Y gyntaf yn y gyfres fydd sgwrs rhwng Emily Burnett ac Abi Morgan, y dramodydd a sgriptiwr Cymraeg sydd wedi ennill sawl gwobr, ar ddiwedd mis Ebrill.

Mae gwaith Abi Morgan yn cynnwys y cyfresi teledu *The Split*, *Sex Traffic*, *The Hour* a *My Fragile Heart*. Mae ei ffilmiau nodweddd yn cynnwys *Shame*, *The Iron Lady*, *The Invisible Woman*, *Suffragette* a *Brick Lane*. Mae ei gwaith theatr yn cynnwys *The Mistress Contract* (Royal Court Theatre), *Fugee* (The National Theatre) a *Love Song* (Frantic Assembly, Lyric Hammersmith).

### **Cyfleoedd i weithio ar GALWAD**

Mae Cwmni Creadigol GALWAD yn parhau i dyfu gyda chyfleoedd creadigol newydd yn cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf. Heddiw, rydym yn cyhoeddi'r cyfleoedd canlynol:

- **Coreograffydd cynorthwyol** sy'n byw yng Nghymru i weithio gydag Anthony Matsena a Louise Stern, gan chwarae rhan allweddol wrth lunio coreograffi a symud yn y prosiect ar draws llwyfannau a ffurfiau lluosog.
- Galwad agored am **chwe awdur newydd** i gydweithio gyda'n tîm ysgrifennu a chreadigol i gynhyrchu sgriptiau wedi'u bwriadu ar gyfer darnau wedi'u ffilmio hyd at 3 munud, i'w castio a'u ffilmio fel rhan o GALWAD. Bydd y cyfle hwn yn cael ei lansio ddydd Llun 28 Mawrth.

Bydd rhagor o wybodaeth am y prosiect a chyfleoedd pellach i ymwneud â GALWAD yn cael eu rhyddhau ar draws y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan: [www.galwad.cymru](http://www.galwad.cymru)

Comisiynir GALWAD gan Cymru Greadigol fel rhan o UNBOXED: Creativity in the UK ac mae'n un o 10 prosiect a gomisiynwyd sy'n digwydd ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn 2022. Mae arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol yn cynnwys digwyddiadau rhad ac am ddim ar raddfa fawr, gosodweithiau a phrofiadau digidol fydd yn hygyrch yn fyd-eang, a rhaglen ddysgu helaeth, sy'n anelu at gyrraedd miliynau o blant ysgol.

Mae UNBOXED: Creativity in the UK yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac yn cael ei gomisiynu a'i ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol a EventScotland.

Mae digwyddiadau UNBOXED yng Nghymru yn cynnwys: About Us (Caernarfon, 30 Mawrth i 6 Ebrill) Dreamachine (Caerdydd, manylion i'w cyhoeddi), Green Space Dark Skies (ledled Cymru, Mai i Medi 2022), StoryTrails (Casnewydd ac Abertawe, Awst) ac, wedi'i gomisiynu gan Gymru Greadigol, GALWAD: A story from our future (Blaenau Ffestiniog, Abertawe a Merthyr Tudful, Medi 2022).

### **UNBOXED: Creativity in the UK**

1 Mawrth – 2 Hydref 2022

[Unboxed2022.uk](http://Unboxed2022.uk)

**-DIWEDD-**

I gael rhagor o wybodaeth am GALWAD, cysylltwch ag Elin Rees, Pennaeth Cyfathrebu Collective Cymru – [elinrees@collective.cymru](mailto:elinrees@collective.cymru) / 07917 308329  
Dilynwch y ddolen hon am ddelwedd o Anthony Matsena - [llun Anthony](#)

I gael rhagor o wybodaeth am UNBOXED, cysylltwch â Jeanette Ward  
[Jeanette.ward@unboxed2022.uk](mailto:Jeanette.ward@unboxed2022.uk) / 07729 930 812

### **NODIADAU I OLYGYDDION:**

1. Mae **GALWAD** wedi'i gynhyrchu gan Casgliad Cymru, partneriaeth Cymru gyfan dan arweiniad National Theatre Wales sy'n cynnwys y Ganolfan Technoleg Amgen, Clwstwr, Disability Arts Cymru, Ffilm Cymru, Frân Wen a Sugar Creative. Mae partneriaid cymunedol ar hyn o bryd yn cynnwys Cell B, Citizens Cymru, Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig (EYST) ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful a chwmni creadigol o awduron, artistiaid, perfformwyr, dylunwyr, gwneuthurwyr ffilm, a cherddorion. Am ragor o wybodaeth ewch i [www.galwad.cymru](http://www.galwad.cymru)

2. Mae **CYMRU GREADIGOL** yn asiantaeth fewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad y diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo twf ar draws y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan osod Cymru yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.
3. Mae **UNBOXED: Creativity in the UK** yn ddatliad o greadigrwydd sy'n cael ei gynnal ledled y DU yn 2022, wedi'i gynllunio i gyrraedd miliynau a dod â phobl ynghyd. Mae'n cynnwys digwyddiadau rhad ac am ddim ar raddfa fawr, gosodweithiau a phrofiadau digidol fydd yn hygyrch yn fyd-eang yn arddangosfa fwyaf y DU o gydweithio creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau disgleiriaf mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys deg o brosiectau creadigol aml-safle a digidol mawr sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol.

Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022 – o Ynysoedd Heledd Allanol i Luton ac o Omagh i Abertawe, ac ar draws y cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creativity in the UK yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac yn cael ei gomisiynu a'i ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol a EventScotland.